OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 3711

# Rheoliadau Cynrychiolwyr Rhiant -lywodraethwyr a Chynrychiolwyr Eglwysig (Cymru) 2001

**Diddymu a Darpariaethau Trosiannol**

**12.**—(1) Mae Rheoliadau 1999 drwy hyn wedi'u diddymu.

(2) Ni fydd diddymu Rheoliadau 1999 yn dirymu penodiad cynrychiolwyr rhiant-lywodraethwyr i bwyllgor perthnasol (o fewn ystyr "*relevant committee*" yn Rheoliadau 1999).

(3) Hyd nes y bydd awdurdod addysg lleol yn gweithredu trefniadau gweithrediaeth neu drefniadau amgen bydd y Rheoliadau hyn yn effeithiol mewn perthynas â'r awdurdod hwnnw—

(a) fel pe bai cyfeiriadau at "pwyllgor trosolygu a chraffu addysg" yn gyfeiriadau at bwyllgor perthnasol (o fewn ystyr "*relevant committee*" yn Rheoliadau 1999), a

(b) fel pe bai'r cyfeiriad yn rheoliad 10 at "gweithrediaeth yr awdurdod addysg lleol o dan sylw" yn gyfeiriad at "yr awdurdod o dan sylw".